***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 3362 (Cy. 337)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *22 Rhagfyr 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *23 Rhagfyr 2014* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Mawrth 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 13, 105 a 106 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**), adrannau 21(1), (2)(b) a (5), 23(2) a (3), 24 a 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003(**2**) ac adrannau 39 a 58 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004(**3**).

Yn unol ag adran 39(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ag Archwilydd Cyffredinol Cymru, y cymdeithasau hynny o awdurdodau lleol yng Nghymru y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn ymwneud â hyn a'r cyrff hynny o gyfrifwyr y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn briodol.

(**1**) 2000 p. 22 ; diwygiwyd adran 13 gan Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p. 28), adran 236(9); Deddf Lleoliaeth 2011 (p. 20), Atodlen 3, paragraffau 8 a 13; a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (mccc 4), adran 57(2)(a). Diwygiwyd adran 105 gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p. 26), Atodlen 3, paragraffau 11 a 14; Deddf Lleoliaeth 2011 (p. 20), Atodlen 3, paragraffau 8 a 70; a chan O.S. 2013/2597. Diwygiwyd adran 106 gan Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20), Atodlen 3, paragraffau 8 ac 71; a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011(mccc 4), adran 176(1). Diwygiwyd adran 106 hefyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4), adran 68(4), ond ar adeg gwneud y Rheoliadau hyn, nid yw adran 68(4) eto mewn grym.

(**2**) 2003 p. 26; diwygiwyd adran 24 gan Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p. 28), adran 238(3). Diwgiwyd adran 24 hefyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007, Atodlen 14, paragraff 5, a chan Ddeddf Archwilio ac Atebolrwydd Lleol 2014, Atodlen 12, paragraffau 49 a 52, ond ar adeg gwneud y Rheoliadau hyn nid yw'r darpariaethau hynny eto mewn grym.

(**3**) 2004 p. 23; diwygiwyd adran 39 gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (dccc 3), Atodlen 4, paragraffau 20 a 44. Diwygiwyd adran 58 gan y Ddeddf honno, Atodlen 4, paragraffau 20 a 58.